OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 756 (Cy. 131)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton i Gyffordd Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

Gwnaed	*26 Mehefin 2025*
Yn dod i rym	*30 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton i Gyffordd Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw i rym ar 30 Mehefin 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y gefnffordd” yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

Dileu cyfyngiadau

3. Bydd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi’r Waun, Halton, Clwyd) (Dileu Cyfyngiadau) 1992(**1**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 87 o fetrau i’r de o ymyl ogleddol yr ynys hollti wrth Gylchfan Halton hyd at bwynt 104 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r B5605, y Waun.

Y darn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Halton, y Waun.

Y darn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Whitehurst, y Waun.

(**1**) O.S. 1992/147.